# Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## (HSS(2)-07-06)

### Dyddiad y Cyfarfod: Dydd Mercher 5 Ebrill 2006
### Amser y Cyfarfod: 9.30 am - 10.55 pm
### Lleoliad y Cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 2, Y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

#### Aelodau’r Cynulliad yn bresennol

| Aelod Cynulliad | Etholaeth |
|---|---|
| Rhodri Glyn Thomas<br><br>(Y Cadeirydd) | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| Brian Gibbons<br><br>(Y Gweinidog) | Aberafan |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Helen Mary Jones | Y Canolbarth a’r Gorllewin |
| Jonathan Morgan | Canol De Cymru |
| Lynne Neagle | Tor-faen |
| Jenny Randerson | Canol Caerdydd |
| Karen Sinclair | De Clwyd |

#### Swyddogion yn bresennol

| Enw | Tetil swydd |
|---|---|
| Ann Lloyd | Pennaeth yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| Dr David Salter | Y Prif Swyddog Meddygol Dros Dro |
| Karen Morgan | |

**Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad**

| Enw | Teitl swydd |
|---|---|
| Jane Westlake | Clerc y Pwyllgor |
| Sara Mansour | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |
| Kathryn Potter | Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau |

## Eitem 1: Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau

1.1 Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau na dirprwyon.

1.2 Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiant.

1.3 Bydd cofnod gair-am-air o’r cyfarfod ar gael.

## Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog

HSS(2)-07-06(p1)

2.1 Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad y Gweinidog.

2.2 Ymatebodd y Gweinidog i gwestiynau gan yr Aelodau ynghylch ei adroddiad.

## Camau i’w cymryd

- Y Gweinidog i ddweud wrth yr Aelodau beth yw’r pellter mwyaf y mae’n rhaid i bobl ei deithio i gael dialysis.
- Byddai’r Gweinidog yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau’r Pwyllgor am wasanaethau trydyddol ar gyfer awtistiaeth yn Ne Cymru yn ei adroddiad nesaf a byddai’r Pwyllgor yn ystyried y mater ymhellach cyn toriad yr haf.

## Eitem 3: Is-ddeddfwriaeth – Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) 2006

HSS(2)-07-06(p2) a HSS(2)-07-06(p3);

3.1 Trafododd yr Aelodau yr is-ddeddfwriaeth

## Eitem 4: Adolygiad Polisi ar Wasanaethau Canser – Cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl;

HSS(2)-07-06(p4)

4.1 Cytunodd y pwyllgor i sefydlu grwp cyfeirio arbenigol.

4.2 Cadarnhaodd yr Aelodau'r cylch gorchwyl a thrafodwyd y posibilrwydd y gallai'r Pwyllgor gymryd rhan yng nghynhadledd Cymru yn erbyn Canser fis Hydref.

### Camau i'w cymryd

- Y Cadeirydd i ysgrifennu at yr Athro Mason, yr Athro Maughan a'r Athro Barwnes Finlay i ofyn am eu harweiniad yng nghyswllt y grwp cyfeirio.
- Newid un pwynt yn y cylch gorchwyl i'w gwneud yn glir bod safon y gwasanaeth yn "dda".
- Y Clerc i ymchwilio i'r posibilrwydd o gymryd rhan yn y gynhadledd fis Hydref.
- Y Clerc i ddosbarthu llythyrau ymgynghori.

## Eitem 5: Blaenraglen waith y pwyllgor – tymor yr haf

HSS(2)-07-06(p5);

5.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y flaenraglen waith.

### Papurau i'w nodi

Health Bill- NHS Security Management – Document Disclosure
HSS(2)-07-06(p6)

Helpu gweithwyr proffesiynol Cymraeg eu hiaith i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg
HSS(2)-07-06(p7)

Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 13 a 23 Mawrth 2006
HSS(2)-05-06-min and HSS(2)-06-06-min

Gwasanaeth y Pwyllgorau
April 2006